
Prifysgol Abertawe
Swansea University

# Llawlyfr Academaidd
## Ôl-raddedig a Addysgir

Trosolwg o reoliadau, polisïau a gweithdrefnau academaidd y Brifysgol sy'n gysylltiedig â'ch astudiaethau.

Mae gwybodaeth sy'n benodol i Gyfadrannau/Ysgolion ar gael yn eich Cyfadran/Ysgol

# Croeso i Brifysgol Abertawe



## Cenhadaeth y Brifysgol

Sefydlwyd Prifysgol Abertawe ym 1920; mae wedi'i lleoli ar ddau gampws erbyn hyn ac mae'n rhoi myfyrwyr wrth wraidd ei gweledigaeth ar gyfer y dyfodol.

Nod y Brifysgol yw:

- Darparu profiad myfyrwyr eithriadol.
- Sicrhau bod ein haddysgu o'r safon uchaf a'i fod yn cynhyrchu graddedigion sy'n barod i fynd i fyd gwaith neu i barhau â'u hastudiaethau.
- Darparu amgylchedd ymchwil rhagorol, gydag ymchwil sy'n arwain y byd, sy'n gydweithredol yn fyd-eang ac yn cael ei chydnabod yn rhyngwladol
- Defnyddio ei chryfder ym maes ymchwil, ei chysylltiadau â diwydiant, a'i chyrhaeddiad byd-eang i ysgogi twf economaidd, meithrin ffyniant, cyfoethogi bywyd cymunedol a diwylliannol Cymru, ac i gyfrannu at iechyd, hamdden, a lles ei dinasyddion



Mae'n bleser mawr gennyf estyn croeso cynnes i chi i'n cymuned ddysgu fywiog ac amrywiol yma ym Mhrifysgol Abertawe.

Gobeithio'n fawr y byddwch yn mwynhau eich amser gyda ni ac y bydd eich profiad yn un cyfoethog a gwobrwyol a fydd yn eich cefnogi i gyflawni eich potensial academaidd, personol a phroffesiynol yn llawn.

**Yr Athro Paul Boyle,**
**Is-ganghellor**

# Croeso

## Gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe (UMPA)

SWANSEA UNIVERSITY STUDENTS' UNION
UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERTAWE

Croeso gan Undeb Abertawe! Ni yw llais pob myfyriwr ym Mhrifysgol Abertawe. Rydym yn gweithio ar draws campysau'r Bae a Singleton, mae gennym siop, far ac rydym yn cynnal dros 280 o ddigwyddiadau i fyfyrwyr bob blwyddyn.

Ein prif flaenoriaeth yw sicrhau bod myfyrwyr Prifysgol Abertawe yn cael yr amser gorau yn y Brifysgol; er mwyn gwneud hyn, rydym yn gweithio gyda'r Brifysgol ar eich lles, eich addysg a'ch profiad pob dydd i sicrhau eich bod yn cael y profiad gorau posib.

Dyma beth sydd gennym i'w gynnig:

- Adloniant a digwyddiadau ar y campysau ac oddi allan, gan gynnwys Wythnos y Glas, Dawns yr Haf a Varsity.
- Dros 120 o gymdeithasau a 50 o glybiau chwaraeon.
- Canolfan Cyngor a Chymorth annibynnol - yn cwmpasu popeth o landlordiaid amheus i anghydfodau academaidd.
- Cynrychioli myfyrwyr yn y Brifysgol - o'n 300+ o gynrychiolwyr pwnc i'n tîm o 18 o swyddogion rhan-amser - rydym yn sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed.








# Croeso Gan

## Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe (UMPA)



LLYWYDD
Robbie Richards
robbie.richards@swansea-union.co.uk



IS-LYWYDD CYMDEITHASAU  A GWASANAETHAU
Anwen Ellis
anwen.ellis@swansea-union.co.uk



IS-LYWYDD CYNRYCHIOLYDD LLYWYDD LLES
Abigail Vian
abigail.vian@swansea-union.co.uk



IS-LYWYDD ADDYSG
Tom Navin
tom.navin@swansea-union.co.uk



IS-LYWYDD CHWARAEON
Dafydd Evans
dafydd.evans@swansea-union.co.uk



IS-LYWYDD MATERION CYMREIG
Ruby Cradle
ruby.cradle@swansea-union.co.uk





# Gweithio mewn Partneriaeth

Mae Prifysgol Abertawe yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth â myfyrwyr er mwyn gwella'r profiad myfyrwyr yn barhaus. Yn seiliedig ar yr egwyddorion a nodir yn y Siarter Myfyrwyr, mae'r Brifysgol bob amser yn ceisio gweithio ar y cyd â myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr. Mae hyn yn eich galluogi i gymryd rhan weithredol ym mhob agwedd ar eich profiad dysgu.

Fel partner cyfartal yn y dysgu, mae'n bwysig i'r Brifysgol fod gennych chi'r cyfle i gymryd rhan yn y modd y caiff y Brifysgol ei gweithredu er mwyn helpu ei datblygiad yn y dyfodol a sicrhau profiad dysgu ac astudio rhagorol i fyfyrwyr. Mae hefyd wedi ymrwymo i roi cyfleoedd i chi wella eich cyflogadwyedd a chymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol, a fydd yn cefnogi eich datblygiad personol.

Mae yna sawl ffordd y gallwch chi gymryd rhan ym mhrosesau'r Brifysgol, ac mae cyfleoedd a mentrau newydd, a phrosiectau dan arweiniad myfyrwyr, yn cael eu datblygu'n gyson.

O fewn eich Cyfadran neu'ch Ysgol, cefnogir yr ethos bartneriaeth hon trwy'r strwythurau canlynol:

**Penodi Cynrychiolwyr Pwnc a Chyfadran neu Ysgol**

**Aelodaeth Cynrychiolwyr Myfyrwyr ar y Pwyllgorau Cyfadran neu Fyfyrwyr-Staff canlynol:**

- Fforwm Myfyrwyr-Staff
- Byrddau Astudiaethau Meysydd Pwnc
- Pwyllgor Addysg

**Aelodaeth o Bwyllgorau ar lefel y Brifysgol, megis:**

- Y Pwyllgor Addysg y Brifysgol
- Bwrdd Dyfodol Myfyrwyr
- Bwrdd Rheoliadau, Ansawdd a Safonau
- Bwrdd Adolygu a Chymeradwyo Portffolios

**Annog myfyrwyr i roi adborth a chymryd rhan yn arolygon allweddol y Brifysgol:**

- Adborth ar Fodiwlau
- Arolwg Profiad Myfyrwyr (ar gyfer israddedigion nad ydynt yn y flwyddyn olaf)
- Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (ar gyfer israddedigion blwyddyn olaf yn bennaf)

# Cynrychiolaeth Myfyrwyr


Mae cynrychiolwyr myfyrwyr yno i fod yn bont rhyngoch chi a'r Brifysgol ac i gynrychioli Llais y Myfyrwyr ar bob lefel yn y Sefydliad.

Mae'r system cynrychiolwyr myfyrwyr yn cael ei chydlynu trwy bartneriaeth rhwng Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol ac yn eich helpu i gymryd perchnogaeth weithredol ar eich profiad dysgu, i ddarparu adborth adeiladol ac i wneud gwahaniaeth i'r ffordd y caiff eich cyrsiau a'ch adrannau eu cynnal. Mae cynrychiolwyr myfyrwyr ym mhob blwyddyn pob rhaglen (neu set o raglenni cysylltiedig), yn ogystal â chynrychiolydd y Gyfadran/Ysgol a chynrychiolydd Cymraeg ar gyfer myfyrwyr israddedig.

Bydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr yn monitro materion academaidd sy’n cael eu codi mewn cyfarfodydd allweddol penodol trwy gydol y flwyddyn ac yn rhoi gwybod i chi am unrhyw gamau gweithredu. Dylai pob myfyriwr wybod pwy yw'ch cynrychiolydd; os nad ydych chi'n gwybod, edrychwch ar y rhestr yn **swansea-union.co.uk/voice/eduzone/reps** neu cysylltwch â'r **Cydlynydd Llais Myfyrwyr**. Os nad oes cynrychiolydd i'w gael, gallech ystyried cynnig eich hun ar gyfer y swydd. Ewch i Barth Addysg Undeb y Myfyrwyr i gael gwybod sut i wneud hyn.

Dylai cynrychiolwyr fod ar gael i'r myfyrwyr y maent yn eu cynrychioli i helpu gydag unrhyw faterion sy'n codi. Bydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr yn casglu adborth gennych mewn sawl ffordd, gan gynnwys cyfarfodydd - felly cadwch lygad amdanynt! Gellir anfon unrhyw faterion yr hoffech iddynt gael sylw at y cynrychiolydd, ac efallai y galllent gynnig arweiniad neu ddatrys y broblem y tu allan i gyfarfodydd.




34
Uniondeb Academaidd
a Chamymddygiad
Academaidd


29
Amgylchiadau
Esgusodol


13
Cyfranogiad


13
Tiwtora
Personol


35
Cyfeirnodi


31
Apeliadau
Academaidd

# Dechrau Arni

- Dysgwch sut i gofrestru ar eich cwrs a'r modiwlau a ddewiswyd gennych, a'r trefniadau sefydlu yn eich adran.
- Ewch i Hwb am gymorth gyda benthyciadau a ffioedd, ffurflenni eithrio treth y cyngor, ymholiadau fisa.
- Porwch trwy'n gwybodaeth cyrraedd a digwyddiadau'r wythnos groeso ar gyfer myfyrwyr newydd.

- Mae angen ichi wirio eich cyfrif e-bost Outlook yn y Brifysgol bob dydd, i sicrhau na fyddwch yn colli unrhyw wybodaeth bwysig.
- Gallwch chi gael mynediad at eich e-bost myfyriwr drwy fewngofnodi'n uniongyrchol i'ch cyfrif e-bost.

- Gwnewch yn siŵr bod eich cofnod myfyriwr yn gyfredol bob amser, fel bod y Brifysgol yn gallu cysylltu â chi.
- Gallwch chi wneud hyn trwy gofnodi unrhyw newidiadau yn eich Cofnod ar y Fewnrwyd - o ran gwybodaeth academaidd (e.e. rhaglen a modiwlau) a manylion personol (e.e. proffil a manylion cysylltu).
- Rhowch wybod i'r Brifysgol am unrhyw newidiadau cyn gynted â phosibl.

- Cewch raglen sefydlu lawn yn eich Cyfadran neu Ysgol.
- Gosod eich cyfrif Canvas.

- Dyddiadau tymhorau a semestrau

- Eich amserlen yw eich ffrind gorau newydd. Ymgyfarwyddwch ag amserau a lleoliadau pob sesiwn ddysgu a chadwch olwg am hysbysiadau am unrhyw newidiadau.

- Bydd angen i chi sganio eich cerdyn myfyriwr ym mhob sesiwn ddysgu a drefnwyd er mwyn cofnodi'ch presenoldeb. Cyswllt i arweiniad Canllaw I Ddefnyddwyr Fy Mhresenoldeb.

- Gwnewch yn siwr eich bod yn gwybod am wasanaethau cymorth i fyfyrwyr sydd ar gael ar draws y Brifysgol a chysylltiadau defnyddiol eraill, fel y feddygfa a'r ddeintyddfa.

# Cyfadrannau

CLICIWCH I FYND I DUDALEN WE EICH CYFADRAN
AM RAGOR O WYBODAETH:

**Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol**

**Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd**

**Y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg**

**Y Coleg**





# Cyflwyniad

Dyma Lawlyfr Academaidd y Brifysgol sy'n rhoi trosolwg i chi o rai o reoliadau, polisïau a gweithdrefnau academaidd y Brifysgol sy'n berthnasol i chi a'ch astudiaethau. Mae'r fersiwn lawn ar gael ar-lein yn y Rheoliadau Academaidd.

Fe'ch cynghorir i gyfeirio at y llawlyfr hwn i gael gwybodaeth bwysig a all eich cynorthwyo trwy gydol eich astudiaethau ac ar adegau pan fydd angen cymorth academaidd arnoch.

Rhoddir gwybodaeth benodol ichi hefyd am eich cwrs, gan gynnwys eich amserlen, yr amserlen asesu a'r meini prawf, gwybodaeth am fodiwlau a gweithgareddau allgyrsiol yn ogystal â'r holl fanylion cyswllt perthnasol.

## Llywio

**Hyperddolenni:**
Mae'r llawlyfr hwn yn cynnwys Hyperddolenni i'ch galluogi chi i neidio at y wybodaeth sydd ei hangen arnoch. Cliciwch ar unrhyw destun glas sydd wedi'i danlinellu i gael rhagor o wybodaeth.

**Chwilio:**
Er mwyn eich helpu i ddod o hyd i'r hyn yr ydych yn chwilio amdano, mae modd chwilio o fewn y ddogfen hon.

Defnyddwyr Microsoft: Gwasgwch fysellau "Ctrl" ac "F" i agor y bar chwilio.

Defnyddwyr Apple Mac: Gwasgwch fysellau "Command" ac "F" i agor y bar chwilio.

Gallwch ddefnyddio'r cyfleuster chwilio trwy deipio allweddair.

## Cymorth Ychwanegol

**Angen Cymorth?**
Os na allwch ddod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch, peidiwch â phoeni, mae help wrth law naill ai yn Swyddfa Wybodaeth eich Cyfadran neu’ch Ysgol neu yn Hwb.

## Saesneg

Mae'r llawlyfr hwn ar gael yn Saesneg.

## Hygyrchedd

Os oes angen y llawlyfr hwn arnoch mewn fformat hygyrch amgen, cysylltwch â Chanolfan Drawsgrifio'r Brifysgol.

**Peidiwch ag argraffu'r llawlyfr hwn os nad oes gwir angen.**

# Cynnwys

**Cyfathrebu**
- Edrych ar eich negeseuon e-bost
- Cael eich canlyniadau
- Cadw'ch cofnod myfyriwr yn gyfredol

**Cymorth gyda'ch astudiaethau**
- Tiwtora Personol
- Polisi Goruchwyliaeth
- Addasiadau Rhesymol
- Cyfranogiad
- Hwb

**Eich Astudiaethau**
- Dilyniant a Dyfarniadau
- Rhaglenni Astudio
- Modiwlau a Dewis Modiwlau/ Dewisiadau Astudio
- Trosglwyddo rhwng Modiwlau a Rhaglenni
- Astudio drwy gyfrwng y Gymraeg
- Asesu
- Arholiadau
- Adborth ar eich Asesiad
- Marcio a Chymedroli
- Rhyddhau Marciau
- Gyrfaoedd a Cyflogadwyedd
- Graddio
- Gweithio ochr yn ochr â'ch astudiaethau

**Rhywbeth wedi amharu ar eich astudiaethau?**
- Amgylchiadau Esgusodol
- Cywirdeb y Marciau a Gyhoeddwyd
- Apeliadau Academaidd

**Ymddygiad a Chwynion**
- Disgwyliadau ac Ymddygiad Da - Siarter Myfyrwyr
- Polisïau Cyffuriau ac Alcohol
- Urddas wrth Weithio ac Astudio (Atal Aflonyddu)
- Gweithdrefnau Disgyblu
- Addasrwydd i Ymarfer/Astudio
- Gweithdrefn Cwynion
- Adolygiad Terfynol

**Uniondeb Academaidd a Chamymddygiad Academaidd**
- Beth yw Uniondeb Academaidd?
- Beth yw Camymddygiad Academaidd?
- Beth sy'n digwydd os caf fy nghyhuddo o Gamymddygiad Academaidd?
- Sut gallaf osgoi Camymddygiad Academaidd?
- Cyfeirnodi

**Iechyd a Diogelwch**
- Gwasanaethau Iechyd
- Diogelwch

**Diogelu Data**
- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU (GDPR y DU)
- Cydymffurfiaeth yn y Brifysgol
- Eich gwybodaeth bersonol

# Cyfathrebu

## E-bost

Mae angen ichi edrych ar eich cyfrif e-bost Outlook yn y Brifysgol bob dydd i sicrhau na fyddwch yn colli unrhyw wybodaeth bwysig gan y Brifysgol sy'n ymwneud â'ch astudiaethau.

- Mae cyfeiriad eich e-bost Outlook yn y Brifysgol yn cynnwys eich rhif adnabod myfyriwr 6 neu 7 digid, er enghraifft: 123456@abertawe.ac.uk
- Gallwch chi gael mynediad at eich e-bost myfyriwr drwy fewngofnodi'n uniongyrchol i'ch cyfrif e-bost.
- Bydd angen i chi **newid eich cyfrinair rhagosodedig** wrth fewngofnodi am y tro cyntaf ac fe'ch anogir i gofrestru am ddilysiad aml-ffactor i sicrhau bod eich data'n parhau i fod yn ddiogel.

## Cael gwybod eich canlyniadau:

Bydd eich canlyniadau diwedd blwyddyn yn cael eu cyhoeddi ar-lein ar eich cyfrif personol ar fewnrwyd y myfyrwyr.

- Byddwch yn derbyn e-bost ym mis Tachwedd/Rhagfyr yn cadarnhau dyddiad cyhoeddi eich canlyniadau.
- Bydd gwybodaeth hefyd yn cael ei gosod ar safle 'MyStudies' (Canvas) Gwasanaethau Academaidd.



Gweler Gwybodaeth Canlyniadau am ragor o fanylion.

## Cadw cysylltiad:

Gwnewch yn siŵr bod eich cofnod myfyriwr yn gyfredol bob amser, fel bod y Brifysgol yn gallu cysylltu â chi.

Gallwch chi wneud hyn trwy:

- Gofnodi unrhyw newidiadau i'ch manylion academaidd a phersonol ar eich cofnod ar y Fewnrwyd, a
- Rhoi gwybod i'ch Cyfadran neu Ysgol cyn gynted ag y bo modd.

Cyfeiriwch at y Rheoliadau Academaidd am ragor o wybodaeth yn ymwneud â chyfrifoldebau myfyrwyr mewn perthynas â'ch cofnod myfyriwr a chyfathrebu.

# Cymorth gyda'ch Astudiaethau

Dylech ddisgwyl derbyn cymorth priodol a digonol gan eich Cyfadran neu'ch Ysgol trwy gydol eich taith fel myfyriwr, yn y meysydd canlynol:

- Arweiniad Academaidd
- Cymorth ar gyfer Cynllunio Datblygiad Personol
- Arweiniad ar ddod o hyd i help gyda Materion Personol (sy'n effeithio ar eich lles, eich presenoldeb a'ch cynnydd trwy'r Brifysgol)

## Tiwtora Academaidd Personol

Rhoddir Tiwtor Personol i bob myfyriwr ar raglenni a addysgir (israddedig ac ôl-raddedig), a bydd yn eich cynorthwyo cyn belled ag y bo modd, a gall hefyd eich cyfeirio at wasanaethau cefnogi eraill ar gyfer rhai materion. Gall myfyrwyr Cymraeg eu hiaith gael Tiwtoriaid Personol sy'n siarad Cymraeg yn unol â'u Hawliau Fel Myfyrwyr Cymraeg.

Fel arfer, bydd eich Tiwtor Personol yn aelod o staff academaidd eich adran. Gan ddibynnu ar y modiwlau rydych wedi'u dewis, mae'n bosib na fydd eich Tiwtor Personol o reidrwydd yn un o'ch darlithwyr.

Gallwch ddod o hyd i'ch Tiwtor Personol ar eich tudalen fewnrwyd bersonol, o dan **Manylion y Cwrs > Cysylltiadau'r Cwrs**.

Bydd yr holl diwtoriaid personol yn cwrdd â chi yn ystod wythnosau cyntaf eich cwrs, a dylent gwrdd â chi o leiaf bedair gwaith ym mhob sesiwn academaidd. Dylai'r fformat fod yn gymysgedd o gyfarfodydd unigol a grwp.

Darllenwch bolisi llawn y Brifysgol ar Tiwtora Personol am fwy o wybodaeth.

## Addasiadau Rhesymol

Mae prifysgolion yn ceisio creu amgylchedd cynhwysol i bob myfyriwr drwy arferion addysgu hygyrch, dulliau asesu cynhwysol, technoleg gynorthwyol, a mannau hygyrch. Fodd bynnag, weithiau mae angen cymorth ychwanegol ar fyfyrwyr i gymryd rhan yn llawn ac yn gyfartal yn eu hastudiaethau. Felly, gallant ddisgwyl cymorth teg i'r unigolyn, wedi'i gynllunio i gael gwared ar rwystrau i ddysgu neu i leihau'r rheini, drwy Addasiadau Rhesymol.

## Polisi Goruchwyliaeth

(Myfyrwyr Meistr Ôl-raddedig a Addysgir)

Bydd Goruchwyliwr yn cael ei glustnodi i'r myfyrwyr hyn yn ystod cam dysgu annibynnol dan gyfarwyddyd eu rhaglen. Bydd y Goruchwyliwr yn cael ei benodi gan y Gyfadran neu'r Ysgol a bydd yn darparu cyngor a chyfarwyddyd yn ystod eu cyfnod dysgu annibynnol dan gyfarwyddyd. Bydd hyn yn cynnwys dewis pwnc prosiect, terfynau amser ar gyfer cyflwyno (ac ailgyflwyno) o fewn amserlen ddiffiniedig ar gyfer goruchwyliaeth.

Cyfeiriwch at y Polisi Goruchwyliaeth Dysgu Annibynnol dan Gyfarwyddyd am ragor o wybodaeth.

## Cyfrnogiad

**Pam mae fy nghyfranogiad yn cael ei fonitro?**

Caiff presenoldeb ei fonitro drwy ddata cerdyn sweipio'n bennaf mewn sesiynau wyneb yn wyneb a amserlennir a chaiff ei ategu gan ddata o systemau eraill y

# Cymorth gyda'ch Astudiaethau

Brifysgol megis:

- Gweithgarwch ar Canvas i nodi'r adnoddau yr edrychwyd arnynt
- Mynediad at e-adnoddau'r llyfrgell
- Presenoldeb mewn cyfarfodydd goruchwylio misol yn ystod cam dysgu annibynnol dan gyfarwyddyd eich rhaglen, a fydd yn cael ei gofnodi ar system RMS gan eich goruchwyliwr.

### 'Rwy'n fyfyriwr rhyngwladol... sut mae fy nghyfranogiad yn effeithio ar fy fisa Llwybr Myfyriwr ?'

- Mae'n ofynnol dan y gyfraith fod y Brifysgol yn monitro eich cyfranogiad, yn unol â rheoliadau Fisâu a Mewnfudo y DU (UKVI) a'r rheolau sy'n sail i fewnfudo i'r Deyrnas Unedig.
- Os bydd presenoldeb wyneb yn wyneb yn anfoddhaol, fel a bennir gan y Brifysgol, bydd myfyriwr Llwybr Myfyrwyr yn destun y broses uwchgyfeirio fel y manylir yn [Polisi Monitro Cyfranogiad ar gyfer Myfyrwyr a Addysgir.]

### Beth yw 'sesiwn dysgu gynlluniedig'?

Mae [Datganiad a Cyfranogiad] y Brifysgol yn dweud y disgwylir i chi fynychu'r holl Sesiynau Dysgu a Drefnwyd, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Darlithoedd
- Seminarau
- Grwpiau Astudio
- Sesiynau Ymarferol
- Dosbarthiadau Enghreifftiol
- Tiwtorialau
- Arholiadau
- Cyfarfodydd Goruchwylio
- Lleoliadau Diwydiannol
- Teithiau Maes

Sicrhewch eich bod yn ymwybodol o ofynion cyfranogiad ychwanegol yn eich Cyfadran neu'ch Ysgol a gofynion cyrff allanol megis:

- Cyrff Proffesiynol a Rheoleiddio
- Asiantaethau'r Llywodraeth/ariannu
- Gofynion UKVI

Mae gofynion penodol i fyfyrwyr sy'n gwneud rhaglenni proffesiynol ac mae'n hanfodol eich bod chi'n ymwybodol o'r gofynion hyn. Gweler llawlyfr y rhaglen am ragor o wybodaeth.

### Sut y caiff fy nghyfranogiad ei fonitro?

Bydd y Brifysgol yn defnyddio ystod o ffynonellau data er mwyn monitro lefelau cyfranogiad myfyrwyr yn eu hastudiaethau gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu iddynt:

- Sganio cerdyn yn ystod sesiynau dysgu wyneb yn wyneb a amserlennwyd
- Gweithgarwch ar Canvas er mwyn dod o hyd i'r adnoddau a ddefnyddiwyd
- Mynediad at e-adnoddau'r llyfrgell
- Lefelau cyfranogiad mewn cyfarfodydd goruchwylio misol yn ystod cyfnod dysgu annibynnol dan gyfarwyddyd eich rhaglen (Rhan 2) a gaiff ei gofnodi ar y system RMS gan eich goruchwyliwr.

### Beth os na allaf gymryd rhan yn fy astudiaethau?

Rhowch wybod i'ch Cyfadran neu'ch Ysgol!

Os byddwch chi'n absennol am gyfnod o amser, gall eich Cyfadran neu'ch Ysgol ofyn i chi gyflwyno cais am absenoldeb astudio dros dro gan gynnwys esboniad am eich absenoldeb. Cysylltwch â'ch Cyfadran/Ysgol am ragor o wybodaeth

Os bydd effaith drom ar eich astudiaethau, fe'ch cynghorir fel arfer i [ohirio'ch astudiaethau] yn lle hynny.

# Cymorth gyda'ch Astudiaethau

## Cyfranogiad Anfoddhaol

Os na wnewch chi hysbysu eich Cyfadran neu'ch Ysgol pan na allwch gymryd rhan yn eich astudiaethau, efallai y bydd eich Cyfadran neu'ch Ysgol yn pryderu a byddant yn cysylltu â chi yn unol â [phroses uwchgyfeirio](#) y Brifysfol.

Mae "cyfranogiad anfoddhaol" yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig iddynt:

- Methu'n fynych neu'n barhaus â chymryd rhan mewn sesiynau dysgu wyneb yn wyneb neu rithwir a amserlennwyd ac adnoddau dysgu ar-lein dros gyfnod heb roi rheswm boddhaol a/neu
- Methu mynd i gyfweliad a amserlennwyd gydag aelod o staff academaidd/gwasanaeth proffesiynol, yn enwedig pan fo'r cyfweliad hwnnw ynghylch diffyg cyfranogiad a/neu gynnydd academaidd.

Gallai hyn arwain at eich tynnu'n ôl o'ch rhaglen. Os bydd hyn yn digwydd, gallwch chi ofyn am adolygiad o'r penderfyniad hwn. Gweler y [Polisi Monitro Presenoldeb i Fyfyrwyr a Addysgir](#) am ragor o wybodaeth.



# Cymorth gyda'ch Astudiaethau

## Swyddfa Wybodaeth eich Cyfadran neu'ch Ysgol

Os oes angen gwybodaeth neu gyngor arnoch chi, mae **Swyddfa Wybodaeth eich Cyfadran neu'ch Ysgol** yno i'ch helpu chi.

Os na allwch ddod o hyd i'r ateb sydd ei angen arnoch yn eich Cyfadran neu'ch Ysgol, mae Hwb a Chanolfan Gynghori Undeb y Myfyrwyr hefyd ar gael i'ch cynorthwyo chi.

## Hwb

**Campws Singleton:**
Techniwm Digidol

**Campws y Bae:**
Canolog Peirianneg

**Oriau agor:**
Llun-Gwener, 08:30-17:00

Cyflwynwch gais i Hwb drwy ServiceNow a bydd aelod o'n tîm yn ymateb o fewn 3 diwrnod gwaith.

**Gwe:** https://hwb.swansea.ac.uk/

Mae Hwb yn dod â nifer o Wasanaethau Proffesiynol rheng flaen y Brifysgol at ei gilydd i ddarparu desg wybodaeth ganolog un-stop, neu Hwb, ar gampysau Singleton a'r Bae. Nod y Canolfannau hyn yw cynnig gwybodaeth, cyngor ac arweiniad dibynadwy a chyson, a dyma'r lle cyntaf y dylech droi ato gydag unrhyw anhawster y gallech ddod ar ei draws yn ystod eich gyrfa academaidd. Os nad ydych chi'n siwr i bwy y dylech ofyn, gofynnwch i'r Hwb!

Gall Hwb gynorthwyo gydag amrywiaeth o ymholiadau personol ac academaidd yn y meysydd canlynol:

- Cofrestru
- Talu ffïoedd dysgu a llety
- Eithrio rhag Treth y Cyngor
- Cadarnhau Statws Myfyriwr
- Cofnodion Myfyrwyr
- Polisïau a Gweithdrefnau Academaidd, gan gynnwys Camymddwyn Academaidd a Monitro Presenoldeb
- Apeliadau, Cwynion a Disgyblu
- Atodiadau Diploma
- Adroddiad Cyflawniad Addysg Uwch (HEAR)
- Gohirio neu Dynnu Allan o Astudiaethau
- Trawsgrifiadau
- Materion cydymffurfio myfyrwyr rhyngwladol, gan gynnwys casglu cardiau BRP, estyn fisâu a chofrestru gyda'r heddlu.

## Meithrinfa

Mae Meithrinfa Undeb y Myfyrwyr yn darparu gofal plant fforddiadwy, safon uchel i blant o 3 mis oed hyd at 8 mlwydd oed. Mae ein staff proffesiynol ac ymroddgar yn sicrhau amgylchedd cyfeillgar a symbylol i blant.

Ffôn: +44(0)1792 513 151
E-bost: nursery@swansea-union.co.uk
**Gwe:** www.swansea-union.co.uk/support/nursery

# Ble galla i gael help gyda...?

## Bywyd Myfyriwr

**1af Llawr, Adeilad Talbot**
**Gwe:** https://www.swansea.ac.uk/cy/astudio/bywyd-myfyriwr/

Mae **Bywyd Myfyriwr** yn darparu cyngor, arweiniad a gwybodaeth er mwyn cynnig cefnogaeth broffesiynol i fyfyrwyr trwy gydol eu profiad Prifysgol, yn y meysydd canlynol:

## Rhyngwladol

Mae **Tîm Cyngor Fisâu** yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth ar faterion nad ydynt yn academaidd i'r holl ymgeiswyr, myfyrwyr, aelodau staff, ymwelwyr â'r Brifysgol, trigolion y DU sy'n lleiafrifoedd ethnig a'u dibynyddion. Mae'r meysydd cynghori cyffredin yn cynnwys estyniadau mewnfudo a fisa'r DU, caledi ariannol, rheoliadau cyflogaeth a dibynyddion.

**Gwe:** https://hwb.swansea.ac.uk/international/visa-advice/

Gall y **Tîm Cydymffurfiaeth Fisâu** gynorthwyo gyda chofrestru ar gyfer yr hawl i astudio ac estyniadau i fisâu.

**Gwe:** https://hwb.swansea.ac.uk/international/student-compliance-services/

## Arian

Mae **Tîm Cyngor Arian** yn darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar gyllid myfyrwyr, rheoli arian a chymorth ariannol.

**Gwe:** https://hwb.swansea.ac.uk/cy/cyllid/cyngor-arian/

## Diogleu

Mae'r **Tîm Diogelu ac Ymateb** i Ddatgeliadau yn cefnogi myfyrwyr sydd wedi gwneud datgeliadau, drwy gynnig arweiniad, a chyfeirio at wasanaethau arbenigol, gan esbonio'r opsiynau adrodd sydd ar gael iddyn nhw yn y brifysgol, a chan asiantaethau allanol e.e. yr heddlu. Mae'r tîm yn cynghori ar bryderon diogelu, ac yn gweithio gyda sefydliadau allanol i ddiogelu myfyrwyr ac eraill sydd mewn perygl.

**Gwe:** https://hwb.swansea.ac.uk/cy/cymorth-a-lles/teimlo'n-anniogel/

### Canolfan Cyngor a Chymorth Undeb y Myfyrwyr

Mae Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe yn cynnig cyngor a chynrychiolaeth ar faterion academaidd a chysylltiedig â gwaith, gan gynnwys:

- Cyfryngu gyda goruchwylwyr/darlithwyr
- Anghydfodau academaidd
- Llên-ladrad
- Cydgynllwynio
- Camymddygiad Academaidd

**Campws Singleton:**
Llawr Gwaelod (mynedfa'r gorllewin), Adeilad Fulton

**Campws y Bae:**
UM, Y Twyni

**E-bost:** advice@swansea-union.co.uk
**Gwe:** https://www.swansea-union.co.uk/support/adviceandsupport/

**Mae gennych hawl gyfreithiol i dderbyn gwasanaethau cymorth yn Gymraeg os dymunwch.**

**Am ragor o fanylion ewch i'r dudalen Hawllau Myfyrwyr.**

# Ble alla i gael help gyda...?

## Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr

**Adeilad Talbot**

Rydym yn cynnig cyngor, arweiniad ac opsiynau cymorth i fyfyrwyr sy'n wynebu heriau yn ystod eu hamser yn y brifysgol. Mae ein gwasanaethau ar gyfer myfyrwyr sy'n profi anawsterau emosiynol a phersonol yn ogystal â materion mwy cymhleth gan gynnwys nam ar y synhwyrau neu gorfforol, cyflyrau meddygol hir dymor, anawsterau dysgu penodol, cyflyrau ar y sbectrwm awtistig a chyflyrau iechyd meddwl; i sicrhau bod holl fyfyrwyr Prifysgol Abertawe'n cael cyfleoedd dysgu cyfartal.

## Gwasanaethau Llyfrgell

**Parc Singleton a Champws y Bae**

Ceir llyfrgelloedd ychwanegol ar Gampws Parc Dewi Sant ac yn Llyfrgell Glowyr De Cymru yn y Storfa yng nghanol dinas Abertawe.

Mae staff yn gweithio ar Ddesgiau Gwybodaeth y Llyfrgelloedd yn ystod oriau craidd ac mae'r adeiladau ar agor am oriau ychwanegol yn ystod Semester 1 a 2 ac ar gyfer cyfnodau asesu. Mae canllawiau llyfrgell, cwestiynau cyffredin a modiwlau Canvas ar gael i'ch helpu i gyrchu'r adnoddau sydd eu hangen arnoch ar gyfer eich astudiaethau, eich ymchwil a'ch datblygiad personol. Mae staff arbenigol ar gael i'ch helpu i wneud y canlynol:

- Defnyddio ein mannau diriaethol a digidol
- Deall sut i ddefnyddio offer chwilio arbenigol
- Dod o hyd i adnoddau sy'n benodol i'ch pwnc a'u defnyddio
- Cyrchu archif unigryw'r Brifysgol yn ogystal â'i hamgueddfa a'i chasgliadau o lyfrau prin ac arbennig

## Gwasanaethau Digidol

**Llyfrgell y Bae**

Gwasanaethau Digidol yn cefnogi gweithgareddau ymchwil, dysgu, addysgu a gweinyddol myfyrwyr a staff ar draws y Brifysgol.

## Y Ganolfan Llwyddiant Academaidd

**Parc Singleton; Bloc y Stablau**
**ar agor Llun-Gwener, 9am-5pm**

Mae’r Ganolfan Llwyddiant Academaidd yma i’ch helpu i ddatblygu eich sgiliau astudio academaidd a gwireddu eich potensial llawn, beth bynnag eich lefel, eich cefndir neu’ch iaith gyntaf. Rydym yn gweithio’n agos gyda Chyfadranau academaidd a gwasanaethau cymorth eraill er mwyn darparu rhaglen gyflawn o ddosbarthiadau sgiliau academaidd ac apwyntiadau un i un cyfrinachol ym mhob disgyblaeth academaidd. Dylech chi fynychu ein cyrsiau, ein gweithdai, a’n tiwtorialau un i un er mwyn:

- Gwella eich sgiliau ysgrifennu
- Datblygu eich gallu i feddwl yn feirniadol
- Rheoli eich amser yn well
- Gloywi eich sgiliau mathemateg
- Adeiladu eich gwybodaeth ystadegol
- Gwella eich sgiliau digidol
- Hogi eich sgiliau cyfathrebu
- Dysgu am sut i osgoi llên-ladrad

## Academi Hywel Teifi

**Campws Parc Singleton, Adeilad Talbot**

Mae Academi Hywel Teifi'n gweithio'n agos gyda'r holl Gyfadrannau ar draws Prifysgol Abertawe i ddarparu cyfleoedd astudio hyblyg cyfrwng Cymraeg a chymorth iaith, gan eich helpu i ffynnu a gwireddu eich potensial llawn yn ystod eich astudiaethau. Yn gartref i gangen Coleg Cymraeg Cenedlaethol y Brifysgol, mae'r Academi hefyd yn cynnig ystod o gymorth ychwanegol, gan gynnwys ysgoloriaethau am astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, gweithgareddau cyfoethogi, a chyfleoedd i wella eich profiad academaidd, cyflogadwyedd, a defnydd o'r iaith Gymraeg.

# Eich Astudiaethau

Eich Cwrs - Dilyniant a Dyfarniadau

Mae Rheoliadau Academaidd yn bodoli er mwyn sicrhau safonau academaidd ar gyfer eich cwrs a'r dyfarniad rydych chi'n ei gyflawni. Mae'r rheoliadau hefyd yn sicrhau bod pob myfyriwr yn cael ei drin yn deg.

Mae'n bwysig eich bod chi'n ymgyfarwyddo â'r **Rheoliadau Cyffredinol Dyfarniadau Ôl-Raddedig** ynghyd â'r rheoliadau sy'n ymwneud â'ch cwrs, er mwyn bod yn ymwybodol o'r rheolau sy'n berthnasol i chi.



**Tystysgrif/Diploma Ôl-raddedig mewn Addysg Uwch (PGCertHE/PGDipHe)**

**Meistr Ôl-raddedig a Addysgir (Safonol/Hyblyg/Estynedig)**

**Galluogi Rheoliadau Academaidd ar gyfer Rhaglenni Meistr ar y Cyd**

**Cyrsiau sy'n benodol i Goleg neu Ysgol a Myfyrwyr Cysylltiol**

Rhaglenni Ôl-raddedig a Addysgir

- Rheoliadau Cyffredinol
- Tystysgrif Ôl-raddedig Addysg Uwch
- Diploma Ôl-raddedig Addysg Uwch
- Graddau Meistr Ôl-raddedig Safonol a Addysgir
- Graddau Meistr Ôl-raddedig Hyblyg a Addysgir
- Graddau Meistr Ôl-raddedig a Addysgir Estynedig
- Galluogi Rheoliadau Academaidd ar gyfer Rhaglenni Meistr ar y Cyd
- Rheoliadau i Fyfyrwyr Cysylltiol

Rhaglenni Achrededig/Proffesiynol

- Rheoliadau Asesu LPC
- Rheoliadau Asesu LLM Ymarfer y Gyfraith a Drafftio Uwch
- Rheoliadau Cyffredinol Astudiaethau Cydymaith Meddygol
- MSc ar y Cyd mewn Cyfrifiadureg (Université Grenoble Alpes)

# Eich Astudiaethau

## Dysgu ac Addysgu - Rhaglenni Astudio

Nod ein rhaglenni yw ymgorffori Priodoleddau Graddedigion Prifysgol Abertawe drwy gydol taith y myfyriwr, gan sicrhau bod pob myfyriwr graddedig yn datblygu set eang o sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiadau sy'n cyd-fynd â gyrfaoedd y dyfodol a heriau byd-eang. Drwy'r dull cyfannol, wedi'i wreiddio, mae ein cwricwla yn sicrhau bod graddedigion nid yn unig yn gyflawn yn academaidd, ond hefyd yn addasadwy, yn gymdeithasol gyfrifol ac yn barod i ffynnu mewn byd sy'n newid yn gyflym.

Fel arfer, mae rhaglenni israddedig yn dair blynedd o hyd wrth astudio'n llawn amser, gyda rhaglenni estynedig ar gael lle mae'r rhain yn cynnwys blwyddyn sylfaen, lleoliad diwydiannol, neu gyfnod o astudio dramor. Am fanylion penodol y rhaglen, cyfeiriwch at eich rhaglen Canvas Hub a fydd ar gael ar ôl cofrestru.

## Rhaglenni Proffesiynol

Gall rhai rhaglenni gael eu cymeradwyo/hachredu gan Gyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol (PSRBs). Nod rhaglenni o'r fath yw bodloni'r gofynion a'r safonau a bennir gan y corff proffesiynol perthnasol a gallant gyfrannu at gymhwysedd i gofrestru'n broffesiynol a/neu ddarparu eithriadau rhag elfennau penodol o gymwysterau proffesiynol. Bydd angen i fyfyrwyr ar raglenni achrededig neu raglenni a reoleiddir yn broffesiynol gydymffurfio â gofynion ychwanegol. Gallai'r rhain gynnwys:

- Gofynion Addasrwydd i Ymarfer, sy'n asesu addasrwydd myfyriwr i ymuno â phroffesiwn a pharhau ynddo;
- Cwblhau rhaglenni neu leoliadau'n seiliedig ar ymarfer, y mae'n rhaid eu cyflawni yn unol â gofynion y rhaglen a'r PSRB;
- Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), cliriadau iechyd galwedigaethol, neu wiriadau statudol eraill;
- Glynu wrth godau ymddygiad proffesiynol a safonau ymddygiad;
- Cofrestru gyda'r corff proffesiynol perthnasol lle mae hyn yn amod i gymryd rhan yn y rhaglen neu symud ymlaen tuag at gydnabyddiaeth broffesiynol.

Gall rhai rhaglenni a reoleiddir yn broffesiynol hefyd fod yn destun trefniadau ariannol penodol, gan gynnwys cymhwysedd ar gyfer bwrsariaethau neu lwfansau a weinyddir gan gyrff allanol (er enghraifft, bwrsariaeth y GIG neu gynlluniau ariannu'r llywodraeth). Gall cyllid o'r fath fod yn amodol ar gydymffurfio â gofynion presenoldeb, perfformiad a phroffesiynol, gan gynnwys cwblhau lleoliad.

Dylech gyfeirio at ganllawiau sy'n benodol i'r rhaglen sydd ar gael ar Canvas Hub, a fydd ar gael ar ôl cofrestru.

## Rhaglenni Cydweithredol

Mae Prifysgol Abertawe'n cyflwyno nifer o raglenni mewn partneriaeth â sefydliadau eraill drwy drefniadau cydweithredol. Gall y rhain gynnwys rhaglenni a gyflwynir yn gyfan gwbl neu'n rhannol gan sefydliad partner, neu ddarpariaeth ar y cyd lle mae cyfrifoldeb am gyflwyno ac asesu yn cael ei rannu. Bydd myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar raglenni cydweithredol yn parhau i fod yn fyfyrwyr Prifysgol Abertawe. Fodd bynnag, gall agweddau ar gyflwyno, cefnogi ac asesu'r rhaglen gael eu gweinyddu gan y sefydliad partner. Dylai myfyrwyr sy'n astudio ar raglenni cydweithredol gyfeirio at Lawlyfr Academaidd Israddedig Prifysgol Abertawe; a llawlyfr(au) eu sefydliad partner am fanylion llawn gofynion sy'n

# Eich Astudiaethau

benodol i'r rhaglen, trefniadau lleol, a strwythurau cymorth.

Gweler hefyd Eglurhad o'ch Rhaglen.

## Rhaglenni Dysgu o Bell

Bydd pob un o'r rhaglenni a gyflwynir ar-lein yn unig ar gael trwy ein Hamgylchedd Dysgu Rhithwir Canvas.

Cyfeiriwch at eich rhaglen Canvas Hub, a fydd ar gael i chi ar ôl cofrestru.

## Dysgu ac Addysgu - Modiwlau

Bydd eich cwrs Ôl-raddedig a Addysgir yn cynnwys amrywiaeth o fodiwlau, pob un ohonynt wedi'i gynllunio'n ofalus er mwyn rhoi'r profiad dysgu gorau posibl i chi. Caiff rhai modiwlau eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog, gan ddarparu opsiynau i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith i astudio eu pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg.

### Beth yw modiwl?

Fel arfer, bydd modiwl yn cynnwys:
- Nodau penodol
- Maes llafur
- Rhestr ddarllen
- Patrwm addysgu a dysgu
- Dull asesu
- Deilliannau dysgu penodol

Côd y modiwl - rhif cyfeirio unigryw sy'n cynnwys:
- 2-4 llythyren = yr adran y mae'r modiwl yn perthyn iddi
- 2-4 rhif = y cyntaf ohonynt yn dangos y lefel astudio, yr olaf ohonynt yn benodol i bob modiwl
- Mewn rhai achosion, efallai y bydd côd modiwl yn cynnwys y llythyren M yn lle rhif.

Mae gan bob modiwl bwysoliad credyd penodol ac fe'i hamserlennir ar gyfer semester penodol yn seiliedig ar ymrwymiadau staff.

Gellir diffinio modiwlau yn rhai craidd, gorfodol neu ddewisol fel a ganlyn:
- **Craidd**: Mae'n ofynnol i chi gymryd a llwyddo yn y modiwlau hyn.
- **Gorfodol**: Mae'n ofynnol i chi gymryd y modiwlau hyn, ond mae rheolau safonol yn berthnasol.
- **Dewisol**: Gallwch ddewis y modiwlau hyn o ystod o opsiynau a gynigir

## Dewis Modiwlau/ Dewisiadau Astudio

Gwiriwch pa fodiwlau y gallwch eu cymryd yn Llawlyfr y Gyfadran.

Ewch i'r rhestr o fodiwlau drwy'r Catalog Modiwlau. Sylwch y gall y rhain newid.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio eich bod wedi cofrestru ar y nifer cywir o gredydau ar gyfer pob blwyddyn astudio drwy ddewis y nifer briodol o fodiwlau.

- Dylai myfyrwyr amser llawn Ôl-raddedig a Addysgir ddewis modiwlau fel a ganlyn:
  - Gradd Meistr a Addysgir – cyfanswm y modiwlau'n dod i 180 credyd ym mhob blwyddyn astudio, gan gynnwys 60 credyd o ddysgu annibynnol dan gyfarwyddyd
  - Diploma Ôl-raddedig – cyfanswm y modiwlau'n dod i 120 credyd
  - Tystysgrif Ôl-raddedig – cyfanswm y modiwlau'n dod i 60 credyd.
- Dylai myfyrwyr rhan-amser Ôl-raddedig a Addysgir ddewis modiwlau fel a ganlyn:
  - Gradd Meistr a Addysgir – cyfanswm y modiwlau'n dod i 60 credyd ym

# Eich Astudiaethau

mhob blwyddyn astudio, gan gynnwys 60 credyd o ddysgu annibynnol dan gyfarwyddyd yn ystod y cwrs cyfan
- Diploma Ôl-raddedig – cyfanswm y modiwlau'n dod i 60 credyd y flwyddyn
- Tystysgrif Ôl-raddedig – cyfanswm y modiwlau'n dod i 30 credyd.

**Os ydych chi eisiau newid eich modiwl(au):**

- Rhowch wybod i'ch Cyfadran neu'ch Ysgol
- Gwiriwch fod y modiwl newydd ar agor i chi ac yn cael ei gynnal yn yr un semester
- Newidiwch o fewn 2 wythnos gyntaf modiwl sy'n cael ei gynnal dros un semester, neu o fewn 4 wythnos gyntaf modiwl sy'n cael ei gynnal dros ddau semester.

Cyfeiriwch at y Canllawiau Trosglwyddo Modiwlau am fwy o wybodaeth.
Os ydych chi eisiau newid i gwrs gwahanol:

**Gall eich Cyfadran neu'ch Ysgol roi gwybodaeth a chefnogaeth fwy manwl i chi mewn perthynas â'ch Dewisiadau Astudio a'r dulliau addysgu y dylech eu disgwyl.**

- Siaradwch â'ch Tiwtor Personol
- Cysylltwch â Hwb am gyngor ynghylch ffïoedd, cyllid a fisa astudio (os yn berthnasol).

Cyfeiriwch at y Canllawiau Trosglwyddo Rhaglenni am fwy o wybodaeth.

### Astudio drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae Academi Hywel Teifi ar gael i'ch cefnogi chi drwy gydol eich amser ym Mhrifysgol Abertawe. Rydym yn hyrwyddo, yn datblygu ac yn cyfoethogi addysg, ymchwil a bywyd myfyrwyr cyfrwng Cymraeg ar draws y Brifysgol. Mae'r cyfleoedd sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg yn mynd ymhell y tu hwnt i'ch rhaglen radd. Fel myfyriwr, gallwch gael mynediad at gymorth academaidd cyfrwng Cymraeg, datblygu eich sgiliau cyflogadwyedd, cyflwyno asesiadau yn Gymraeg hyd yn oed pan gaiff modiwlau eu haddysgu yn Saesneg, a chyflwyno cais am ysgoloriaethau a bwrsariaethau sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Gallwch hefyd fanteisio ar gyfleoedd addysgu'r iaith Gymraeg, p'un a ydych chi eisiau adeiladu ar eich sgiliau presennol, neu ddysgu'r iaith o'r newydd, wrth fwynhau rhaglen amrywiol o ddigwyddiadau cymdeithasol, diwylliannol a rhwydweithio.

Mae cangen Prifysgol Abertawe o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, sydd yn Academi Hywel Teifi, hefyd yn trefnu ystod eang o weithgareddau drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys digwyddiadau cymdeithasol, cyfleoedd cyfoethogi a fforymau myfyrwyr. Mae'r rhain yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i gwrdd â myfyrwyr eraill sy'n siarad Cymraeg, meithrin cysylltiadau, a sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed wrth ddylanwadu ar eich addysgu a'ch profiad myfyrwyr ehangach. Mae'r Gangen hefyd yn cynnig tystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg y Coleg, sef cymhwyster cydnabyddedig sy'n darparu tystiolaeth o'ch hyfedredd yn y Gymraeg a'ch gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn broffesiynol yn y gweithle. Gall gyflawni'r dystysgrif wella eich cyflogadwyedd drwy roi tystiolaeth glir i gyflogwyr yn y dyfodol o'ch sgiliau iaith Gymraeg a'ch hyder wrth weithio'n ddwyieithog, gan eich helpu i ddisgleirio mewn marchnad swyddi gystadleuol.

P'un a ydych chi'n siaradwr Cymraeg rhugl, yn ddysgwr, neu rywle yn y canol, rydym yma i'ch helpu chi wneud y mwyaf o'ch iaith, cyfoethogi eich profiad yn y brifysgol a datblygu sgiliau a fydd yn fuddiol i chi yn hir ar ôl graddio.

# Eich Astudiaethau

## Asesu

Dylech ddisgwyl amrywiaeth o ddulliau asesu ar draws eich modiwlau, er enghraifft: traethodau gwaith cwrs, cyflwyniadau, prosiectau ac arholiadau, lle cewch gyfle i ddangos ystod o sgiliau a'u datblygu ymhellach.

Bydd eich Cyfadran neu'ch Ysgol yn rhoi gwybodaeth a chymorth i chi ynglŷn â'ch asesiadau, gan gynnwys:

- Amserlen Asesu gynhwysfawr, sy'n manylu ar bob math o asesiad, dyddiadau cyflwyno a dyddiadau y gallwch chi ddisgwyl adborth.
- Sut i gyflwyno'ch asesiad:

  – Electronig: Cyflwyno trwy TurnItIn, system ar-lein sydd ar gael trwy'r tudalennau Canvas ar gyfer pob un o'ch modiwlau perthnasol.
- Cyngor pwysig am gyfeirnodi a sut i osgoi cael eich cyhuddo o gamymddwyn academaidd.

## Asesu ac Addasiadau Rhesymol

Os oes angen addasiadau rhesymol arnoch o ran asesiadau. Chi sy'n gyfrifol am roi gwybod i'r Gyfadran neu'r Ysgol, neu'r Gwasanaeth Lles ac Anabledd.

Mae mwy o wybodaeth am addasiadau rhesymol ar gael ar y tudalennau gwe perthnasol.

**Prawfddarllen**

**Mae'r Polisi Prawfddarllen** yn egluro safbwynt y Brifysgol ar brawfddarllen gwaith cwrs, boed am dâl drwy gontract ffurfiol neu gan gyfaill, cydweithiwr neu aelod o'ch teulu.

## Asesu a Deallusrwydd Artiffisial

Gall cyflwyno gwaith i'w asesu a gynhyrchwyd gan offer deallusrwydd artiffisial heb ganiatâd penodol a heb ddatgan hyn, wynebu ymchwiliad am gamymddygiad academaidd.

Cyfeiriwch at Weithdrefn Camymddygiad Academaidd ac Arweiniad Deallusrwydd Artiffisial y Brifysgol am fwy o wybodaeth.

## Cyflwyno Asesiadau yn Gymraeg

Mae gan bob myfyriwr yr hawl i sefyll arholiadau, neu gyflwyno gwaith ysgrifenedig i'w asesu, yn Gymraeg, p'un ai'r Gymraeg neu'r Saesneg yw prif iaith asesu'r modiwl dan sylw. Os hoffech gyflwyno aseiniadau ysgrifenedig neu arholiad yn Gymraeg ar fodiwl a addysgir yn Saesneg, bydd angen i chi gwblhau ffurflen electronig.

- Mae'n rhaid i fyfyrwyr yn y flwyddyn gyntaf o astudio gwblhau'r ffurflen o fewn **4 wythnos** o ddechrau'r modiwl perthnasol.
- Mae'n rhaid i fyfyrwyr (yn yr ail flwyddyn neu'n uwch) roi gwybod i'w Cyfadran **cyn gynted â phosibl**, yn ddelfrydol cyn dechrau'r modiwl(au) perthnasol.

Lle bynnag y bo modd, mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i farcio asesiadau yn yr iaith y cânt eu cyflwyno ynddi. Os nad oes digon o arbenigedd ar gael yn yr iaith, mae'n bosib y bydd y Brifysgol yn defnyddio gwasanaethau cyfieithu proffesiynol.

Gellir dod o hyd i'r ffurflen berthnasol ar gyfer y cais hwn ar y dudalen we Cyflwyno gwaith a chael eich asesu yn Gymraeg.

Cyfeiriwch at y Canllawiau ar Asesu yn Gymraeg/Iaith Arall, am fwy o wybodaeth.

# Eich Astudiaethau

## Arholiadau

Mae'r cyfnod arholi yn amser hynod bwysig pan gewch gyfle i roi eich gwybodaeth ar brawf a chael marciau a fydd yn mynd tuag at eich dyfarniad terfynol.

### Beth yw arholiad?

Unrhyw asesiad gyda chyfyngiad amser ffurfiol sy'n cael ei oruchwylio'n annibynnol. Gall hyn gynnwys arholiadau wedi'u goruchwylio a gynhelir wyneb yn wyneb ac ar y campws, arholiadau a oruchwylir ar-lein ac arholiadau "sefyll gartref".

### Pryd mae'r cyfnod arholi?

I fyfyrwyr ar raglenni sy'n dechrau ym mis Medi, cynhelir y cyfnodau arholiadau fel arfer ym mis Ionawr a mis Mai/Mehefin gydag arholiadau ailsefyll ac ailgyflwyno gwaith cwrs ym mis Awst. Sylwer bydd rhai Cyfadrannau, Ysgolion neu raglenni (er enghraifft, y rhai hynny heb ddyddiad dechrau ym mis Medi) yn dilyn amserlenni gwahanol ar gyfer arholiadau. Fel arfer, bydd yr wybodaeth hon ar gael i chi drwy lawlyfr eich Ysgol/rhaglen.

### Arholiadau ar y campws/wyneb yn wyneb

Mae gan y Brifysgol gyfres o reolau llym sy'n rheoli cynnal arholiadau, gan gynnwys rheolau ynghylch absenoldeb, ymddygiad yn ystod arholiad, a chamymddygiad academaidd. Mae manylion y rheolau hyn yn y Rheoliadau a Gweithdrefnau Arholiadau.

Fel canllaw sylfaenol. Rhaid i chi sicrhau:

- Eich bod yn gwybod y dyddiad, yr amser, y lleoliad, a'r rheolau sy'n ymwneud â phob un o'ch arholiadau. Rhoddir amserlenni arholiadau i chi gan eich Cyfadran/Ysgol neu'r Swyddfa Arholiadau.
- Os oes unrhyw broblemau gydag amserlen eich arholiad, siaradwch â'ch **Cynrychiolydd Pwnc, eich Tiwtor Academaidd**, neu'r **Swyddog Arholiadau**.
- Os na allwch fod yn bresennol oherwydd **amgylchiadau esgusodol**, rhaid i chi gyflwyno cais am ohirio **o fewn 5 niwrnod gwaith** i ddyddiad yr arholiad.

Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i newid amserlenni arholiad ar fyr rybudd mewn ymateb i ddigwyddiadau annisgwyl.
Yn ystod yr arholiad - byddwch yn ymwybodol:

- Os byddwch chi'n cyrraedd yn hwyr, **ni fyddwch** yn cael amser ychwanegol ar y diwedd
- Gellir gofyn i chi gadarnhau eich hunaniaeth. Er enghraifft, mae'n rhaid i chi fynd â'ch **Cerdyn Myfyriwr** (neu ryw ffurf arall o adnabod â ffotograff) i bob arholiad, ynghyd â phrawf mai myfyriwr ydych chi, megis trwydded yrru â ffotograff a llythyr gan y Brifysgol sy'n cynnwys eich rhif myfyriwr) a'i roi mewn lle amlwg pan ofynnir ichi wneud hynny.
- Ni chaniateir **ffonau symudol** na **dyfeisiau electronig eraill**
- Mae'n rhaid i'r holl gymhorthion a ganiateir (pennau, pensiliau, etc.) gael eu cario mewn **cês tryloyw.**

Os oes angen **darpariaeth arbennig** arnoch o ran asesu. Chi sy'n gyfrifol am roi gwybod i'r **Gyfadran neu'r Ysgol**, y **Swyddfa Anableddau** neu'r **Gwasanaethau Lles**.

Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am ddarpariaeth arbennig yn Rheoliadau Cyffredinol y Brifysgol.

# Eich Astudiaethau

## Adborth ar eich Asesiad

Dylech ddisgwyl derbyn adborth ar eich asesiadau sy'n adeiladol ac yn amserol. Fel rheol, dylai myfyrwyr ôl-raddedig ddisgwyl derbyn adborth ar yr holl asesiadau ac arholiadau o fewn tair wythnos yn ystod y tymor.

Am wybodaeth lawn ynghylch asesu ac adborth ar eich gwaith, cyfeiriwch at Reoliadau Asesu y Brifysgol a Pholisi Asesu, Marcio ac Adborth y Brifysgol.

## Marcio a Chymedroli

Caiff pob asesiad, boed yn waith cwrs neu'n arholiad, ei farcio'n ddienw, gyda rhifau myfyrwyr yn cael eu defnyddio at ddibenion adnabod nes bydd prosesau marcio a chymedroli wedi eu cwblhau. Dim ond os byddwch yn cyflwyno cais am Amgylchiadau Esgusodol, neu i ryddhau marciau dros dro fel modd o roi adborth fydd eich enw'n cael ei ddatgelu (gweler y Pholisi Asesu, Marcio ac Adborth). Ni fydd yr arfer o ddelio â chanlyniadau'n ddienw yn parhau ar gyfer dosbarthiadau gradd derfynol chwaith. Cymedroli yw'r broses o sicrhau bod yr holl asesiadau wedi'u marcio'n gywir a theg gan gyfeirio at y meini prawf marcio. Gellir gwneud hyn trwy farcio dwbl gwaith pob myfyriwr neu rai myfyrwyr i sicrhau cysondeb o ran y marcio. Gweler y Pholisi Asesu, Marcio ac Adborth am fanylion llawn.

## Rhyddhau Marciau

Bydd Polisi ar Gyhoeddi Marciau Myfyrwyr y Brifysgol yn rhoi manylion llawn i chi ynhgylch rhyddhau a chadarnhau'ch marciau.

### Beth sydd ei angen arnaf i wneud cynnydd?

Mae'r rheoliadau llawn sy'n ymwneud â chynnydd diwedd lefel a materion dyfarnu ar gael yn y Rheoliadau Asesu Ôl-raddedig.

Bydd myfyrwyr sy'n methu â chyflwyno eu darn/darnau o ddysgu annibynnol dan gyfarwyddyd erbyn y dyddiad cau yn methu'r rhaglen ac efallai y dyfernir Diploma Ôl-raddedig iddynt fel dyfarniad ymadael. Bydd myfyrwyr sy'n cyflwyno ac yn methu'r darn/darnau o ddysgu annibynnol dan gyfarwyddyd ar y cynnig cyntaf fel rheol yn cael ailgyflwyno fel yr amlinellir isod.

| Modd Astudio | Ailgyflwyno |
|---|---|
| Llawn Amser | 3 Mis |
| Rhan-Amser | 6 Mis |

Disgwylir i myfyrwyr gywiro eu gwaith fel y nodir gan eu Goruchwyliwr. Gall fyfyrwyr wneud newidiadau i deitl eu gwaith ar ôl cael caniatâd gan eu Goruchwyliwr yn unig ac ni ddylid disgwyl rhagor o ymchwil gwreiddiol.



# Eich Astudiaethau

## Cymorth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd ym Mhrifysgol Abertawe

Ym Mhrifysgol Abertawe, rydyn ni'n ymrwymedig i'ch helpu chi i gyrraedd eich nodau gyrfaol. P'un a ydych chi'n archwilio eich opsiynau, yn chwilio am brofiad gwaith neu'n cyflwyno cais am rolau graddedig, mae ein Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd yn cynnig amrywiaeth eang o gymorth sydd wedi'i deilwra i'ch anghenion.

### Arweiniad Gyrfaoedd Personol

Mae ein tîm o ymgynghorwyr gyrfaoedd profiadol yma i'ch helpu chi:

- Archwilio llwybrau gyrfaol posib sy'n cyd-fynd â'ch sgiliau, eich diddordebau a'ch gradd.
- Datblygu strategaethau ar gyfer sicrhau cyflogaeth, interniaethau a chynlluniau graddedig.
- Darparu arweiniad un i un ar benderfyniadau gyrfaol, ceisiadau a chyfweliadau.

Gallwch chi drefnu apwyntiadau unigol, sgwrsio ag Ymgynghorydd Gyrfaoedd cymwysedig dros SgwrsFyw neu alw heibio i ofyn ymholiadau cyflym, felly bydd cymorth ar gael ar bob adeg.

### Gweithdai Datblygu Sgiliau

Rydyn ni'n cynnig gweithdai drwy gydol y flwyddyn sydd wedi'u llunio i wella eich cyflogadwyedd, gan gynnwys:

- Ysgrifennu CV a llythyr eglurhaol
- Paratoi at gyfweliadau ac ymarfer ar gyfer canolfannau asesu
- Rhwydweithio a brandio personol
- Datblygu sgiliau proffesiynol a pharodrwydd ar gyfer y gweithlu

Bydd y sesiynau hyn yn eich helpu i feithrin hyder a bod yn amlwg mewn marchnad swyddi gystadleuol.

### Profiad gwaith a chyfleoedd cyflogaeth

Mae profiad ymarferol yn rhan allweddol o lwyddiant. Mae Prifysgol Abertawe'n darparu:

- Mynediad at amrywiaeth eang o gyfleoedd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys swyddi rhan-amser, swyddi i raddedigion, gwirfoddoli a lleoliadau gwaith
- Cefnogaeth wrth sicrhau lleoliadau blynyddoedd mewn diwydiant, gan gynnwys cyngor ar geisiadau a chyllid
- Rhaglen Hwb Gyrfaoedd Prifysgol Abertawe i fyfyrwyr sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol i recriwtio

### Adnoddau ar-lein a phyrth swyddi

Cadwch mewn cysylltiad â chyflogwyr a chyfleoedd drwy:

- Job Teaser, sy'n cynnwys cyfleoedd am swyddi, proffiliau cyflogwyr ac adnoddau gyrfaoedd.
- Offer ar-lein i archwilio opsiynau gyrfaol, asesu eich sgiliau a chryfhau eich cais a'ch technegau mewn cyfweliad
- Digwyddiadau rhithwir a gweminarau gydag arbenigwyr yn y diwydiant
- Efelychiadau gwaith ar-lein.

### Ymgysylltu â chyflogwyr a rhwydweithio

Rydyn ni'n hwyluso cysylltiadau rhwng myfyrwyr a chyflogwyr drwy wneud y canlynol:

- Ffeiriau gyrfaoedd a digwyddiadau rhwydweithio â byd diwydiant.
- Darlithoedd gwadd, paneli a gweithdai a arweinir gan gyflogwyr.
- Rhwydweithiau i gyn-fyfyrwyr i ysbrydoli ac arwain eich cynlluniau gyrfaol.

# Eich Astudiaethau

## Eich Adroddiad Cyflawniad Addysg Uwch

### Cymorth i raddedigion

Mae ein cefnogaeth yn parhau ar ôl i chi raddio. Rydyn ni'n cynnig cymorth gyrfaoedd a chyflogadwyedd gydol oes i'ch helpu i wneud y canlynol:

- Rhwydweithio gyda chyflogwyr ac ennill profiad gwaith
- Cael mynediad at gyfleoedd mentora, hyfforddi ac arweiniad
- Cadw'n ymwybodol o gyfleoedd gyrfaol a datblygiad proffesiynol.

### Mae eich taith yrfaol yn dechrau yma

P'un a ydych chi heb benderfynu ar eich cyfeiriad gyrfaol, neu rydych chi'n cyflwyno cais am rôl gystadleuol i raddedigion neu'n ceisio datblygu eich sgiliau proffesiynol, mae Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd yma i'ch helpu chi ar bob cam o'r ffordd.

Am ragor o wybodaeth, ewch i: Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd Prifysgol Abertawe

Mae eich Adroddiad Cyflawniad Addysg Uwch (HEAR) yn cynnwys disgrifiad o natur, lefel, cyd-destun a statws eich astudiaethau, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol. Yn ogystal â chreu a storio eich HEAR, mae gan Gradintel y nodweddion canlynol:

- Yr opsiwn i rannu eich HEAR â darpar gyflogwyr a/neu sefydliadau eraill ar unrhyw adeg, fydd yn eich cynorthwyo i ganfod cyflogaeth ar lefel raddedig neu swyddi ôl-raddedig ar ôl cwblhau'ch rhaglen.
- Holiadur personoliaeth sy'n eich helpu i adnabod meysydd y byddai cyflogwyr yn eu hystyried yn gryfderau ac yn wendidau, a bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i adnabod darpar gyflogwyr sydd fwyaf addas i'ch ffordd o feddwl.
- Asesiadau seicometrig sy'n profi eich rhesymu geiriol, rhifyddol a rhesymegol; mae dros 70% o gyflogwyr graddedigion yn defnyddio profion tebyg yn rhan o'u proses ddethol.
- Llwyfan sy'n galluogi cyflogwyr i 'dagio' darpar recriwtiaid, a fydd yn hysbysu'r darpar recriwtiaid am y swydd sydd ar gael.

Yn ogystal â HEAR, mae Prifysgol Abertawe hefyd yn darparu Gwobr Cyflogadwyedd Abertawe, sy'n cynnig cyfleoedd i gynllunio ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol. Bydd proses y Wobr yn eich helpu i gael mynediad at weithgareddau allgyrsiol, swyddi myfyrwyr a lleoliadau gwaith, yn ogystal â chynnig gweithdai ar gyfer gwella, megis ysgrifennu CV effeithiol a dysgu sgiliau cyfweliad.

## Graddio

Graddio yw eich awr fawr i ddathlu'ch cyflawniadau fel myfyriwr. Cofiwch am unrhyw ddyddiadau cau y mae angen i chi eu bodloni er mwyn sicrhau eich lle yn y Cynulliadau Graddio. Mae'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch ar y tudalennau gwe Graddio.

# Eich Astudiaethau

## Gweithio ochr yn ochr ag Astudio

Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gall fod angen i chi ennill arian ychwanegol tra byddwch yn astudio.

Mae angen i chi sicrhau nad yw'ch ymrwymiadau gwaith yn gwrthdaro â'ch astudiaethau, ond gallwch drafod hyn gyda'ch Tiwtor Personol.

Canllaw cyffredinol y Brifysgol yw na ddylai myfyrwyr ôl-raddedig amser llawn dreulio mwy na 15 awr yr wythnos yn gwneud gwaith cyflogedig yn ystod y tymor.

Os ydych chi'n ddeiliad fisa Llwybr Myfyrwyr ac os oes gennych chi gwestiynau am oriau gwaith, e-bostiwch visa.advice@swansea.ac.uk.



Rheolau ar gyfer llwybr myfyriwr (Haen 4 gynt)

- Cewch weithio hyd at 20 awr yr wythnos os ydych yn astudio ar lefel gradd neu uwch
- Cewch weithio 10 awr yr wythnos os ydych yn astudio cwrs ar lefel is na gradd
- Y diffiniad o wythnos yw o ddydd Llun tan ddydd Sul
- Dylid cynnwys gwaith gwirfoddol (hyd yn oed os ydyw'n ddi-dâl) yn y cyfyngiad 20 awr
- Os oes gennych ganiatâd i weithio, cewch weithio ar sail amser llawn yn ystod gwyliau. Ceir mwy o wybodaeth yma: www.swansea.ac.uk/study/semesterandtermdates
- Os ydych yn astudio ar sail ran-amser, ni chaniateir ichi weithio
- Ni chewch gymryd rhan mewn gweithgarwch cysylltiedig â busnes na bod yn hunangyflogedig
- Bydd eich BRP (fisa) yn dweud beth yw eich statws gweithio.

# Rhywbeth wedi amharu ar eich astudiaethau?

## Amgylchiadau Esgusodol

Mae'r Brifysgol yn deall bod bywyd weithiau'n gallu bod yn rhwystr i'ch astudiaetau. Cyfeirir at hyn fel Amgylchiadau Esgusodol, a ddiffinnir fel a ganlyn:

**"Problemau neu ddigwyddiadau difrifol a llym sydd y tu hwnt i reolaeth y myfyriwr neu nad oedd modd eu rhagweld a allai fod wedi effeithio ar berfformiad myfyriwr a/neu a allai fod wedi amharu ar allu myfyriwr i fynychu, i gwblhau, neu i gyflwyno asesiad ar amser."**

Os ydych chi'n teimlo bod amgylchiadau esgusodol wedi effeithio ar eich astudiaethau, mae'n bwysig eich bod chi'n:

- ceisio cyngor gan eich Tiwtor Personol a/neu'r Tîm Teithiau Addysg er mwyn archwilio'r opsiynau sydd ar gael i chi.
- cwblhau ac yn cyflwyno cais ar borth e:Vision newydd y Brifysgol.

Gweler y Polisi ar Amgylchiadau Esgusodol am ragor o wybodaeth.

Gallwch hefyd ddod o hyd i'r ateb rydych chi'n chwilio amdano yn yr Erthygl Wybodaeth am Amgylchiadau Esgusodol.



## Cyflwyno Gwaith Cwrs yn Hwyr

Os na dderbynnir eich cais am estyniad a'ch bod yn cyflwyno'ch gwaith ar ôl y dyddiad cau, byddwch yn cael cosb.

Gwiriwch gyda'ch Cyfadran neu'ch Ysgol pa gosb am gyflwyno gwaith i'w asesu yn hwyr gan fyfyrwyr Israddedig sy'n berthnasol i chi.

## Cyflwyno Gwaith Cwrs yn Hwyr

Os na dderbynnir eich cais am estyniad a'ch bod yn cyflwyno'ch gwaith ar ôl y dyddiad cau, byddwch yn cael cosb. Mae'r Gyfadran neu'r Ysgol yn gweithredu'r cosbau canlynol am gyflwyno gwaith asesu i fyfyrwyr Ôl-raddedig:

- Bydd ymgeiswyr sy'n methu cyflwyno gwaith erbyn y dyddiad cau yn derbyn marc o 0%.
- Gall ymgeiswyr nad ydynt yn gallu bodloni dyddiadau cau o'r fath oherwydd amgylchiadau esgusodol, wneud cais i Bwyllgor y Gyfadran neu'r Ysgol am ystyriaeth i gael estyniad.



# Rhywbeth wedi amharu ar eich Astudiaethau?

## Cywirdeb y Marciau a Gyhoeddwyd

Mae'r weithdrefn Cywirdeb Marciau a Gyhoeddwyd yn rhoi cyfle i chi gwestiynu cywirdeb y marciau/graddau a gofnodwyd ar gyfer eich enw neu gywirdeb cyfartaledd cyffredinol y modiwl/Lefel gyda'ch Cyfadran neu'ch Ysgol. Cyfeiriwch at reoliadau a gweithdrefn Cywirdeb Marciau a Gyhoeddwyd am ragor o wybodaeth.

## Apêl Academaidd

Mae Apêl Academaidd yn gais i benderfyniad Bwrdd Arholi gael ei adolygu. Gallai hyn ymwneud â phenderfyniadau ar ddilyniant, marciau asesu a phenderfyniadau ar ddosbarthiadau gradd terfynol. Gellir cyflwyno apeliadau os yw un neu fwy o'r sefyllfaoedd canlynol yn berthnasol:

- Ymgeiswyr sy'n cael eu rhwystro rhag parhau â'u hastudiaethau ar ganol lefel astudio neu ran o raglen. Nid ydych wedi cymhwyso ar gyfer dilyniant i gam nesaf y rhaglen.
- Ymgeiswyr sy'n methu cymhwyso i fynd ymlaen i gam nesaf eu rhaglen ar ddiwedd lefel, ar ddiwedd rhan neu ar ddiwedd blwyddyn.
- Pan allai goblygiadau'r penderfyniad dilyniant a wnaed gan y Bwrdd Arholi gael effaith sylweddol ar ganlyniadau cyffredinol y myfyriwr (e.e. capio marciau).
- Ymgeiswyr sydd wedi cwblhau eu rhaglen ond sy'n dymuno apelio yn erbyn y canlyniad, neu ymgeiswyr sy'n anfodlon bod y Brifysgol wedi dyfarnu cymhwyster ymadael iddynt.

Rhaid cyflwyno pob apêl gan ddefnyddio'r ffurflen 'Ffurflen Gais am Apêl' i Adran Apeliadau Academaidd y Gwasanaethau Addysg o fewn **1 mis** i gael eich hysbysu o benderfyniad y Bwrdd Arholi perthnasol. Am wybodaeth lawn, gweler y Weithdrefn Apeliadau Academaidd neu'r Cwestiynau Cyffredin am Apeliadau Academaidd.

Os nad ydych yn fodlon â chanlyniad eich cwyn, gallwch gyflwyno cais am Adolygiad Terfynol yn unol â Gweithdrefn Adolygu Terfynol y Brifysgol.

Hoffem eich atgoffa hefyd fod Canolfan Gyngor Undeb y Myfyrwyr ar gael i'ch cynorthwyo gydag Apeliadau Academaidd a/neu i gynnig cyngor.

I drefnu apwyntiad i weld rhywun yn Undeb y Myfyrwyr gallwch chi gysylltu â'r Ganolfan Gyngor drwy'r porth newydd i fyfyrwyr lle gallwch godi tocyn a dewis y categori - Cyngor a Chymorth o'r gwymplen.



# Ymddygiad a Chwynion

## Disgwyliadau ac Ymddygiad Da

Mae'r Brifysgol yn disgwyl i chi ymddwyn mewn ffordd barchus.

Felly:

- Os byddwch yn cyflawni trosedd o fewn eiddo'r Brifysgol, gallech wynebu camau disgyblu a/neu achos troseddol.
- Os byddwch yn ceisio rhwystro addysgu, astudio, ymchwil, neu weinyddu'r Brifysgol, neu rwystro unrhyw aelod o'r Brifysgol rhag cyflawni ei ddyletswyddau/dyletswyddau, gallech wynebu camau disgyblu
- Mae rhaid i chi hysbysu Gwasanaethau Academaidd ar unwaith am unrhyw arestiad troseddol, cyhuddiad, rhybudd neu euogfarn ac unrhyw amodau mechnïaeth a osodir arnoch chi, yn ystod eich amser yn fyfyriwr.

Rhoddir disgrifiad pellach o'r ymddygiad disgwyliedig yn y Siarter Myfyrwyr.

Mae Prifysgol Abertawe ac Undeb y Myfyrwyr wedi ymrwymo i hyrwyddo amgylchedd diogel a chefnogol i astudio, a gyda'n gilydd, rydym wedi llunio Polisi Alcohol a Pholisi Cyffuriau Anghyfreithlon.

Os ydych chi'n teimlo eich bod yn dioddef aflonyddu ac angen cyngor, cyfeiriwch at ganllawiau'r Brifysgol - Urddas wrth Weithio ac Astudio (Atal Aflonyddu). Hefyd, mae Cynghorwyr Aflonyddu a gallwch siarad â nhw yn uniongyrchol.

Mae Gweithdrefn Ddisgyblu y Brifysgol yn nodi'r camau a gymerir mewn achosion o gamymddygiad honedig gan fyfyrwyr.

## Cwynion

Os oes gennych broblem, efallai y byddai'n well gennych chi geisio ei datrys trwy ddwyn y mater i sylw'ch Cynrychiolydd Myfyrwyr, Tiwtor Personol, neu aelod arall o staff. Fodd bynnag, os ydych chi'n teimlo bod angen ichi wneud cwyn, dilynwch Weithdrefn Cwynion y Brifysgol.

Dylai myfyrwyr godi cwynion anffurfiol neu ffurfiol cyn gynted ag y bo modd ac o fewn tri mis i ddyddiad y digwyddiad(au) sy'n sail i'r gŵyn. Fel arfer, ni fydd y Brifysgol yn ystyried cwynion a dderbynnir yn hwyrach na'r dyddiad hwn.

## Adolygiad Terfynol

Os nad ydych yn fodlon â chanlyniad eich cwyn, gallwch gyflwyno Adolygiad Terfynol yn unol â Gweithdrefn Adolygu Terfynol y Brifysgol.

# Ymddygiad a Chwynion

## Addasrwydd i Ymarfer

Mae Cyfadrannau neu Ysgolion hefyd
Mae Cyfadrannau neu Ysgolion hefyd
yn gyfrifol am sicrhau eich bod yn cydymffurfio â gofynion y Brifysgol ac unrhyw gyrff rheoleiddiol a phroffesiynol perthnasol eraill. Felly, os ydych yn dilyn rhaglen sy'n arwain yn uniongyrchol (neu'n rhannol) at gymhwyster proffesiynol, neu'r hawl i ymarfer proffesiwn neu alwedigaeth benodol, ac mae'ch ymddygiad neu'ch amgylchiadau personol yn golygu na allwch barhau ar y cwrs, neu nad ydych yn addas i gael eich derbyn i'r proffesiwn neu'r alwedigaeth dan sylw, neu i'w ymarfer, bydd y rheoliadau hyn yn berthnasol.

Dyma rai enghreifftiau o ymddygiad a allai arwain at ddwyn achos yn erbyn myfyriwr o dan Reoliadau Addasrwydd i Ymarfer y Brifysgol:

- Methu â cheisio'r cymorth meddygol priodol neu gyfranogi yn y broses i reoli unrhyw gyflwr iechyd/anabledd sy'n effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer.
- Methu'n fynych â chywiro ymddygiad y mae'r Gyfadran/yr Ysgol wedi eich hysbysu ei fod yn annerbyniol.
- Unrhyw ymddygiad neu amgylchiadau a allai eich atal rhag cael cynnig lleoliad neu barhau ar leoliad presennol.
- Euogfarn sy'n berthnasol i'r rhaglen astudio neu'r proffesiwn sy'n cael ei arfer fel rhan o'r rhaglen astudio.
- Ffugio cofnodion a/neu lofnodion ymarferwyr proffesiynol.
- Anonestrwydd difrifol, er enghraifft, arferion annheg mewn arholiad neu asesiad neu ffugio cofnodion.
- Unrhyw amgylchiad arall a allai beri amheuon am eich addasrwydd i gael eich derbyn i'ch proffesiwn neu'ch galwedigaeth, ac i'w hymarfer, e.e. methu â pharchu cyfrinachedd, unrhyw ymddygiad sy'n groes i gôd ymarfer, côd ymddygiad neu gôd moeseg presennol sy'n rheoli'r proffesiwn yr ydych yn dyheu bod yn rhan ohono.

Am ragor o wybodaeth, edrychwch ar [Reoliadau Addasrwydd i Ymarfer](#) y Brifysgol.



# Uniondeb Academaidd a Chamymddygiad Academaidd

## Beth yw Uniondeb Academaidd?

Mae Uniondeb Academaidd yn seiliedig ar yr egwyddor bod sut rydych chi'n dysgu mor bwysig â beth rydych chi'n ei ddysgu, ac mae'n seiliedig ar nifer o egwyddorion craidd:

- Cymryd cyfrifoldeb am eich astudiaethau
- Parchu barn pobl eraill, hyd yn oed os nad ydych chi'n cytuno â nhw
- Parchu hawliau eraill i astudio
- Cydnabod gwaith pobl eraill sydd wedi cyfrannu at eich astudiaethau, eich ymchwil, neu'ch cyhoeddiadau eich hun
- Cynrychioli cyfraniadau i waith grwp yn onest
- Dilyn safonau proffesiynol a gofynion moesegol sy'n gysylltiedig â'ch rhaglen
- Osgoi gweithredoedd sy'n rhoi mantais annheg i chi
- Cydymffurfio â gofynion asesu
- Cynrychioli canlyniadau ymchwil neu ddata arbrofol yn onest

## Beth yw Camymddygiad Academaidd?

Mae Camymddygiad Academaidd yn digwydd pan na chydymffurfir ag egwyddorion a gwerthoedd Uniondeb Academaidd, fel arfer pan fydd myfyriwr yn ceisio cael mantais annheg. Mae enghreifftiau o gamymddygiad academaidd yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):

- Dod â deunydd heb ei awdurdodi i mewn i leoliad arholiad
- Copïo gan eraill neu gyfathrebu ag eraill yn ystod arholiadau
- Meddu ar ddyfeisiau electronig yn ystod arholiadau
- Personadu myfyriwr arall neu gael rhywun i'ch personadu chi ar gyfer unrhyw arholiad neu ddarn o waith a asesir
- Ffugio canlyniadau casglu a/neu ddadansoddi data
- Llên-ladrata gwaith rhywun arall trwy ei gyflwyno i'w asesu heb gyfeirnodi'r awdur gwreiddiol. Siaradwch â'ch Cyfadran neu'ch Ysgol os oes angen help arnoch i gyfeirnodi eich gwaith yn gywir
- Defnyddio deunydd sydd wedi'i greu gan ddeallusrwydd artiffisial (AI) heb gydnabod hynny, a'i gyflwyno i'w asesu fel petai'n waith gennych chi. Nid yw defnyddio deallusrwydd artiffisial wedi'i wahardd wrth lunio gwaith gwreiddiol, ond os yw'n cael ei ddefnyddio rhaid iddo gydymffurfio â'r canllawiau a roddir ar gyfer pob aseiniad a rhaid ei gydnabod a'i gyfeirnodi'n glir. Siaradwch â'ch Cyfadran neu'ch Ysgol os oes angen rhagor o arweiniad arnoch ar hyn
- Comisiynu gwaith, sef y weithred o dalu am, neu drefnu i rywun arall (person neu system gan gynnwys offer AI pan nad ydynt wedi'u hawdurdodi a'u datgan yn benodol) gynhyrchu darn o waith waeth a yw hwnnw wedyn yn cael ei gyflwyno i'w asesu fel pe bai'n waith gan y myfyriwr ei hun ai peidio

# Uniondeb Academaidd a Chamymddygiad Academaidd

- Gweithio gyda myfyriwr arall/ myfyrwyr eraill ar waith i'w asesu heb gael caniatâd ymlaen llaw, gan gynhyrchu darn o waith yn y pen draw sydd yr un fath neu'n debyg ac sy'n cael ei gyflwyno i'w asesu gan yr holl fyfyrwyr dan sylw wedyn ('cydgynllwynio' yw'r term am hyn).

## Beth sy'n digwydd os caf fy nghyhuddo o Gamymddygiad Academaidd?

Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â chamymddygiad academaidd yn sylweddol. Os caiff honiad o gamymddwyn academaidd ei gadarnhau, gellir canslo eich marc(iau) ar gyfer yr aseiniad, y modiwl neu hyd yn oed eich lefel astudio a gall hyn effeithio ar ganlyniad cyffredinol eich gradd neu'ch gallu i symud ymlaen i'r lefel astudio nesaf.

Gellir gofyn i chi adael y Brifysgol hefyd. Dylech sylweddoli y gall y cosbau a roddir pan fydd honiad o gamymddwyn academaidd yn cael ei gadarnhau yn ddigon i gau llwybr gyrfa.

Er enghraifft, os caiff myfyriwr y Gyfraith ei ganfod yn euog o gymryd rhan mewn gamymddygiad academaidd, mae'n bosib, na chaiff ei dderbyn yn aelod o Gymdeithas y Cyfreithwyr. Yn yr un modd, gallai myfyriwr sy'n dymuno dod yn athro, yn feddyg neu'n nyrs fod yn ddarostyngedig i weithdrefnau Addasrwydd i Ymarfer.

## Sut gallaf osgoi camymddygiad academaidd?

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddarparu cymorth ac arweiniad i fyfyrwyr ar sgiliau astudio, er mwyn lleihau achosion o lên-ladrad damweiniol ac fe'ch cynghorir i ofyn am gyngor pellach gan eich Tiwtor Personol os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch yr hyn sy'n ofynnol. Mae cefnogaeth ac arweiniad ar ysgrifennu academaidd a **chyfeirnodi** hefyd ar gael gan eich Llyfrgellydd Pwnc a'r Ganolfan Llwyddiant Academaidd.

Mae'r Brifysgol hefyd yn cynnig cyfres o gyrsiau ar-lein sydd â'r nod o gynorthwyo myfyrwyr gyda'u hastudiaethau.

Mae un o'r cyrsiau hyn yn canolbwyntio ar uniondeb academaidd ac mae ar gael trwy eich cyfrif Canvas.

Mae cefnogaeth fanwl ac enghreifftiau o arddulliau cyfeirnodi a dyfynnu ar gael yn eich adran Cymorth Llyfrgell yn MyStudies (Canvas).

Gweler Gweithdrefn Camymddygiad Academaidd y Brifysgol am fanylion llawn a chosbau posibl. Os cewch eich amau o Gamymddygiad Academaidd, cewch gyfle i ymateb i'r honiadau, a bydd cymorth a chyngor ar gael gan Ganolfan Cyngor a Chymorth Undeb y Myfyrwyr (ASC).



# Iechyd a Diogelwch

## Gwasanaethau Iechyd

**Deintyddfa**
Llawr Gwaelod, Llety Horton

**Oriau Agor:**
Llun-Iau 08:30-13:00, 13:30-16.30
Gwener 08:30-15:30

**Ffôn: 01792 602222**
**Gwe:** https://www.swansea.ac.uk/cy/astudio/bywyd-myfyriwr/iechyd-a-lles/deintyddfa/

**Canolfan Iechyd y Brifysgol**
Llawr Gwaelod, Llety Penmaen

**Oriau Agor:**
Mynediad agored (dim angen apwyntiad)
Llun-Gwen: 09:00-11:00
Apwyntiadau prynhawn,
Llun-Gwen: 13:30-17:30

**Ffôn:** 01792 295321
**Gwe:** https://www.swansea.ac.uk/cy/astudio/bywyd-myfyriwr/iechyd-a-lles/y-ganolfan-iechyd/

## Diogelwch

Gweler tudalennau gwe **Iechyd a Diogelwch** y Brifysgol am ragor o wybodaeth.

Os oes argyfwng, deialwch 333 i gysylltu â'r Llinell Frys sy'n cael ei staffio 24 awr y dydd, trwy gydol y flwyddyn.

Os na allwch ddod o hyd i ffôn mewnol a'ch bod yn ffonio'r gwasanaethau brys trwy ddeialu 999 o ffôn symudol, dewch o hyd i'r ffôn mewnol agosaf a rhowch wybod i'r tîm Diogelwch yn syth, fel y gellir trefnu mynediad priodol ar gyfer cerbydau brys:

**E-bost:** security@abertawe.ac.uk

Lawrlwythwch **SafeZone** i'ch ffôn symudol - ap diogelwch y campws ar gyfer myfyrwyr a staff.

Darllenwch yn ofalus y wybodaeth a ddarperir yn **Llawlyfr Gwybodaeth y Gyfadran neu'r Ysgol ar Ddiogelwch, Cynaliadwyedd a Gwydnwch**.



# Diogelu Data

Prifysgol Abertawe yw'r rheolwr data ac mae wedi ymrwymo i amddiffyn hawliau myfyrwyr yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU (GDPR y DU) a Deddf Diogelu Data 2018.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddiogelu eich gwybodaeth a bod yn dryloyw ynghylch pa wybodaeth sydd ganddi. Mae gan y Brifysgol ystod o bolisïau a gweithdrefnau diogelu data ar waith i brosesu eich data personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Brifysgol anfon gwybodaeth benodol i'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA). Gweler gwefan HESA am ragor o wybodaeth.

Cofiwch mai eich cyfrifoldeb chi fel myfyriwr, yw sicrhau bod yr holl ddata personol y mae'n ofynnol i chi eu darparu i'r Brifysgol, yn gywir ac yn gyfoes.

Am wybodaeth bellach ynglyn â sut mae eich data personol yn cael ei drin gan Brifysgol Abertawe a'ch hawliau unigol, edrychwch ar y Hysbysiad Preifatrwydd Myfyrwyr.



# Mapiau'r Campysau

## Campws Parc Singleton



## Parc Dewi Sant



## Campws y Bae



Gallwch weld mapiau o'r campysau ar-lein a byddant yn eich helpu i ymgyfarwyddo â'r safleoedd, i ddod o hyd i'ch mannau dysgu ac i ddod o hyd i unrhyw wasanaethau cymdeithasol neu gefnogaeth y gall fod eu hangen arnoch.

# Geiriau/Terminoleg Allweddol

**Hwb** – y man yn y Brifysgol lle gallwch gael cymorth (yn bersonol neu ar-lein).

**Swyddfa Gwybodaeth Myfyrwyr** - y man yn eich Cyfadran neu Ysgol lle gallwch gael cymorth.

**Amserlen Asesu** – amserlen yn dangos eich holl asesiadau am y flwyddyn i ddod.

**Myfyrwyr a Addysgir** – myfyrwyr sy'n astudio cwrs a addysgir drwy ddarlithoedd a seminarau (e.e. MA neu MSc).

**Myfyrwyr Ymchwil** – myfyrwyr sy'n gweithio tuag at radd ymchwil ac yn gwneud gwaith ymchwil annibynnol (e.e. PhD).

**Rhaglen neu Gyrsiau** – eich gradd (e.e. MA Hanes).

**Modiwl** – y 'blociau adeiladu' sy'n ffurfio eich cwrs.

**Sesiwn Ddysgu a Drefnwyd** – unrhyw sesiwn addysgu sydd ar eich amserlen (e.e. darlithoedd, seminarau, tiwtorialau).

**Asesu Parhaus** – gwaith cwrs neu unrhyw asesiad a wneir yn ystod eich cwrs nad yw'n arholiad – gall hyn fod ar sawl ffurf, nid traethodau yn unig.

**Asesu Ffurfiannol** – asesu sy'n eich helpu i ddysgu.

**Asesu Crynodol** – asesu sy'n cyfrannu at eich marc mewn modiwl a chanlyniad eich gradd.

**Adborth** – y broses lle gall staff academaidd eich helpu i ddod o hyd i ffyrdd o wella eich gwaith – mae hyn yn bwysig!

**Amgylchiadau Esgusodol** – materion sy'n gallu effeithio ar eich gallu i astudio i'ch potensial llawn.

**Gohirio Arholiad** – cyfle i sefyll arholiad ar ddyddiad hwyrach oherwydd amgylchiadau esgusodol.

**Gohirio wedi'i Gapio** – bydd marc y modiwl neu asesiad wedi'i 'gapio' ar y marc llwyddo – ni fydd yn bosib cael mwy na 50%.

**Gohirio heb ei Gapio** – bydd marc y modiwl neu asesiad yn safonol ac ni fydd y marc y byddwch yn ei gyflawni yn cael ei leihau neu ei 'gapio'.

**Dysgu Annibynnol dan Gyfarwyddyd** – prosiect neu ddarn o waith sylweddol a gwblheir drwy eich ymchwil eich hun (e.e. traethawd estynedig MA).

# Ymwadiad

Mae'r Brifysgol wedi gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod y wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn yn gywir ar ddyddiad y cyhoeddi. Fodd bynnag, efallai y bydd rhai newidiadau, er enghraifft i raglenni, modiwlau, lleoliadau astudio, cyfleoedd lleoliad gwaith, cyfleusterau neu ffïoedd yn angenrheidiol oherwydd rhesymau staffio, ariannol, rheoleiddiol ac academaidd dilys, neu oherwydd amgylchiadau eraill y tu hwnt i reolaeth resymol y Brifysgol. Bydd y Brifysgol yn ymdrechu bob amser i wneud cyn lleied o newidiadau â phosibl ac i hysbysu'r myfyrwyr yn briodol. Bydd unrhyw newidiadau i'r wybodaeth a gynhwysir yn y llawlyfr hwn yn cael eu diweddaru yn fersiwn ar-lein Rheoliadau Academaidd Prifysgol Abertawe.

Fe'ch cynghorir i gysylltu â'ch Cyfadran neu'ch Ysgol yn uniongyrchol os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch neu os bydd gennych unrhyw ymholiadau ynghylch unrhyw newidiadau y cewch wybod amdanynt.

Os oes angen gwybodaeth bellach arnoch cysylltwch â Hwb: Cyflwynwch gais i Hwb drwy ServiceNow a bydd aelod o'n tîm yn ymateb o fewn 3 diwrnod gwaith.

**Gwe:** https://hwb.swansea.ac.uk/cy/